**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/3631/18

Mrs Bethan Sayed AC, Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Hydref 2018

Annwyl Bethan

**ANTHEM – CRONFA GERDD CYMRU**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Medi parthed Anthem, Cronfa Gerdd Cymru.

Rydych wedi holi am sut y mae Anthem yn datblygu. Mae'r sefydliad bellach wedi'i lansio, ac yn dilyn proses recriwtio a dethol gadarn, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi penodi Cadeirydd. Caiff enw'r Cadeirydd ei gyhoeddi mewn datganiad cyhoeddus yn ystod y diwrnodau nesaf.

Rydych yn cyfeirio at y buddsoddiad ariannol gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Anthem ac am yr angen i ddatblygu cronfeydd y sefydliad o amrywiaeth o ffynonellau dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn llwyr ddeall yr heriau o gynyddu'r gronfa i gyrraedd lefel lle y bydd yn dechrau gwneud gwahaniaeth i gerddorion ifanc ac rydym yn hyderus bod gan y Cadeirydd newydd y sgiliau a'r profiad i gyflawni hyn.

Mae Anthem bellach yn dechrau ar gyfnod cyffrous yn ei hanes, wrth i'r Cadeirydd newydd ddechrau recriwtio aelodau ar gyfer y Bwrdd a fydd yn gallu datblygu strategaeth gyllido hirdymor cynaliadwy er mwyn cyflawni'r cam cyfalafu cronfa.

Diolch am dynnu fy sylw at adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 'Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau' a'r heriau a nodir yn yr adroddiad. Rwy'n gwerthfawrogi bod rhai sefydliadau o fewn y sector Celfyddydol yn cael trafferthion i godi arian.

Fel y gwyddoch, strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru yw Anthem i helpu i gefnogi sefydliadau celfyddydol ac unigolion i gael mynediad at ffynonellau ychwanegol o gyllid i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cyfleoedd i wireddu eu potensial cerddorol. Er mai Anthem ei hun fydd yn penderfynu ar union natur y gefnogaeth hon, mae'n hanfodol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

defnyddio’r gronfa fel ffynhonnell ychwanegol o gefnogaeth ac nid i ddisodli cynlluniau cyllido cyfredol.

Nodaf yn ogystal, yn dilyn eich cyfarfod gyda Phrif Weithredwr y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, bod cyfle posibl i Anthem gydweithio â’r sefydliad hwn er mwyn manteisio ar ei brofiad o reoli buddsoddiadau elusennol a datblygu cronfeydd gwaddol.

Cafodd y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon a minnau gyfarfod â Chadeirydd newydd Anthem ar Hydref 17. Er mai mater i’r Cadeirydd a’r Bwrdd yw sut i fynd i’r afael â’u gweithgareddau codi arian yn y pen draw, tynnais sylw’r Cadeirydd at yr arferion da a’r arbenigedd rhagorol sydd eisoes yn bodoli y gellid ei ddefnyddio i helpu’r sefydliad i gyflawni ei nodau.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education